Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Rhiw Bechan

**Tregynon**
**Powys**
**SY16 3EH**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Rhiw Bechan

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Rhiw Bechan |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Powys |
| Iaith y darparwr | Cymraeg a Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 169 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 122 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 21 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.7%) | 8.5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 13.2%) | 37.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 6.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/05/2016 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/09/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 22/01/2024 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Rhiw Bechan yn ysgol hapus a gofalgar. Mae'r pennaeth yn arwain â brwdfrydedd a thosturi ac yn adnabod y disgyblion, y staff, a'r teuluoedd yn dda. Ceir ethos tîm cryf o fewn yr ysgol sy'n sicrhau bod disgyblion ar draws y ddwy ffrwd iaith yn cael profiadau dysgu tebyg. Mae staff, disgyblion a rhieni yn cydweithio'n llwyddiannus i greu ethos o un ysgol gynhwysol.

Mae gan staff berthynas weithio effeithiol â disgyblion sy'n meithrin eu lles yn llwyddiannus. Mae hyn yn meithrin amgylchedd cefnogol sy'n cyfrannu'n dda at fwynhad disgyblion o ddysgu. Mae disgyblion yn gyfeillgar, yn gwrtais, ac yn hapus yn yr ysgol, ac yn cyfrannu'n llawn at fywyd yr ysgol. Mae athrawon yn gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod testunau'n ddifyr ac yn berthnasol i'r disgyblion. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, mae athrawon ar draws yr ysgol yn gor-gyfarwyddo'r dysgu, sy'n rhwystro gallu'r disgyblion i ddatblygu eu medrau yn annibynnol.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn creu amgylchedd dysgu croesawgar. Mae gan arweinwyr ddyheadau uchel ac yn cydweithio a chyfathrebu'n effeithiol â phartneriaid i ymestyn profiadau dysgu disgyblion. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ddatblygu a chymhwyso medrau disgyblion yn yr ardal awyr agored yn gyfyngedig.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref. Mae blaenoriaethau presennol yr ysgol ar gyfer gwella yn briodol ac mae arweinwyr yn gweithio'n bwrpasol, ochr yn ochr â'r corff llywodraethol, i sicrhau gwelliannau i'r ysgol. Gyda'i gilydd, maent yn deall y rhan fwyaf o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn dosbarthu'r holl rolau a'r cyfrifoldebau ysgol gyfan yn ddigon trylwyr ar draws yr uwch dîm arweinyddiaeth. O ganlyniad, ni chaiff yr holl feysydd i'w datblygu eu nodi'n ddigon effeithiol ac ni weithredir arnynt yn ddigon effeithiol ar ôl prosesau monitro.

## Argymhellion

A1 Mireinio prosesau hunanwella a chynllunio ar gyfer gwella

A2 Mireinio'r ddarpariaeth i alluogi disgyblion i fod yn fwy annibynnol yn eu dysgu

A3 Gwella cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso'u medrau yn yr ardal awyr agored

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn y ffrydiau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd cyson o'u mannau cychwyn. Mae llawer ohonynt yn datblygu eu medrau i gyfathrebu'n gynyddol hyderus yn Gymraeg ac yn Saesneg ac yn datblygu medrau rhifedd a digidol cadarn.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau gwrando'n dda. Maent yn mwynhau clywed storïau a rhigymau cyfarwydd, ac maent yn ateb cwestiynau athrawon yn hyderus. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda i'w gilydd, ac i oedolion. Maent yn gwrando'n astud yn ystod trafodaethau ystafell ddosbarth ac yn gwneud awgrymiadau priodol yn ystod tasgau grŵp. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn gwrando'n bwrpasol, gan barchu syniadau eu cyfoedion ac adeiladu ar eu hawgrymiadau a'u safbwyntiau.

Yn y ffrwd cyfrwng Saesneg, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau llafar Saesneg. Mae disgyblion ieuengaf yn disgrifio'u gweithgareddau â brwdfrydedd. Maent yn mynegi eu hoffterau a'u casbethau yn glir. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn esbonio'u gwaith yn gywir ac yn fanwl iawn, er enghraifft wrth ddisgrifio eu rhesymau dros wneud penderfyniadau wrth reoli dyfais robotig. Mae mwyafrif o'r disgyblion ieuengaf yn y ffrwd cyfrwng Cymraeg yn datblygu amgyffrediad o'r Gymraeg yn briodol. Er enghraifft, maent yn ail-ddweud stori yn hyderus trwy ddilyn strwythur gosod. Wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, mae llawer ohonynt yn ymdrechu i siarad Cymraeg mewn sefyllfaoedd ystafell ddosbarth ond yn llai tueddol a hyderus i ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd llai ffurfiol.

Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn y ffrwd cyfrwng Saesneg yn gwneud cynnydd priodol yn datblygu eu medrau Cymraeg. Maent yn mwynhau rhannu gwybodaeth sylfaenol amdanyn nhw eu hunain ac yn trafod eu hardal leol a'r tywydd â hyder cynyddol. Wrth i ddisgyblion symud ymlaen trwy'r ysgol, mae eu cynnydd yn eu medrau siarad Cymraeg yn amrywio, ac mae geirfa a phatrymau brawddeg Cymraeg lleiafrif o ddisgyblion yn parhau'n gyfyngedig.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn briodol. Mae disgyblion ieuengaf yn dysgu seiniau llythrennau yn gyson ac yn eu cyfuno'n gywir i ddarllen geiriau syml. Maent yn adeiladu ar y medrau hyn yn llwyddiannus, ac erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen testunau syml â rhuglder a chywirdeb. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn ymgysylltu ag ystod o destunau gan ddangos lefel ddofn o ddealltwriaeth. Er enghraifft, maent yn defnyddio'u gwybodaeth am stori gymhleth i esbonio gweithredoedd a chymhellion cymeriad.

Yn y ddwy ffrwd iaith, mae medrau ysgrifennu cynnar y rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu'n llwyddiannus trwy greu marciau, tynnu llun symbolau, ac

ysgrifennu llythrennau mewn ystod o gyd-destunau. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu brawddegau syml yn gywir ac yn defnyddio priflythrennau ac atalnodau llawn yn gywir. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn y ffrydiau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn datblygu eu medrau ysgrifennu Saesneg yn dda ac yn dangos amgyffrediad cadarn o batrymau sillafu cyfarwydd, paragraffau, ac atalnodi. Maent yn ysgrifennu'n aeddfed mewn ystod o genres, gan ystyried y gynulleidfa fwriadedig wrth ystyried eu defnydd o eirfa. Er enghraifft, mae disgyblion yn adrodd yn empathig am ddiwrnod ym mywyd ffoadur, gan ddisgrifio'i obeithion a'i ofnau ar ei ddiwrnod cyntaf mewn ysgol newydd. Mae llawer o ddisgyblion yn y ffrwd cyfrwng Cymraeg yn datblygu eu medrau ysgrifennu Cymraeg yn ddigonol. Maent yn deall sut i ysgrifennu'n fedrus, gan ddefnyddio atalnodi a gramadeg priodol, ac yn dechrau golygu a gwella'u hysgrifennu yn bwrpasol. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn defnyddio'r medrau y maent wedi'u dysgu i greu darnau estynedig o ysgrifennu yn ddigon da.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau mathemategol wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol. Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn meddu ar wybodaeth gadarn am rifau i 20. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ystod o adnoddau ac yn defnyddio unedau mesur safonol yn effeithiol i fesur nhw eu hunain a gwrthrychau o gwmpas y dosbarth, er enghraifft. Wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu eu medrau rhif yn briodol. Er enghraifft, yn y ddwy ffrwd iaith, mae ganddynt amgyffrediad cadarn o werth lle, lluosi a rhannu. Fodd bynnag, mae dealltwriaeth lleiafrif o ddisgyblion o gysyniadau mathemategol, fel data, yn llai datblygedig. Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau rhifedd yn briodol mewn agweddau eraill ar eu dysgu.

Mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda, ar y cyfan. O oedran ifanc, maent yn dechrau defnyddio'u medrau digidol yn adeiladol mewn amrywiaeth gyfoethog o brofiadau dysgu. Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn rheoli tegan rhaglenadwy yn llwyddiannus ac yn cadw ac adalw ffeiliau o'u gwaith yn annibynnol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn bwrpasol wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn creu cyfarwyddiadau codio syml ac yn trin cronfeydd data yn hyderus.

Mae medrau corfforol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn trwy amrywiaeth o brofiadau a gweithgareddau ysgogol sy'n hyrwyddo'u hiechyd a'u lles yn effeithiol, er enghraifft wrth chwarae gemau tîm a chymryd rhan mewn sesiynau nofio.

Mae disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau creadigol yn ddigonol. Wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol, mae medrau creadigol llawer o'r disgyblion hŷn yn datblygu'n dda ac maent yn eu cymhwyso'n hyderus mewn ystod fuddiol o weithgareddau ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth greu modelau o blanedau.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Ar draws yr ysgol, mae gan ddisgyblion berthnasoedd gweithio cryf ag oedolion a gyda'i gilydd. Mae hyn yn cyfrannu'n nodedig at hyder disgyblion a'u hagwedd gadarnhaol at ddysgu. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrtais a moesgar â staff, ymwelwyr, a'u cyfoedion, er enghraifft wrth ddal drysau ar agor, ac wrth gyfarch â

gwên. Maent yn dangos ymddygiad da yn y dosbarth, ar y maes chwarae ac o gwmpas yr ysgol.

Mae bron pob un ohonynt yn teimlo'n hapus a diogel yn yr ysgol ac yn gwybod y bydd oedolion yn gwrando ar unrhyw bryderon sydd ganddynt, yn eu cefnogi, ac yn datrys y sefyllfa yn gyflym ac yn deg. Mae hyn yn cynorthwyo'r rhan fwyaf o ddisgyblion i gael perthynas gadarnhaol â staff a dangos agweddau goddefgar a pharch ar y ddwy ochr. O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymdeimlad cryf o falchder a pherthyn i'r ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymroi'n frwdfrydig i'w tasgau sy'n eu hannog i gydweithio, ac, ar y cyfan, maent yn dyfalbarhau i gwblhau eu gwaith yn gyson. Mae hyn yn amlwg pan fydd disgyblion yn cyfrannu at beth maent yn ei ddysgu, a sut, er enghraifft pan mae disgyblion ieuengaf yn dylunio gêm hela arth ar gyfer disgyblion eraill. Fodd bynnag, mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn dibynnu gormod ar staff i gyfarwyddo'u dysgu, ac o ganlyniad, nid yw llawer o ddisgyblion yn dewis eu tasgau na sut i gofnodi eu gwaith yn annibynnol.

Mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag ADY, a'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain yn hyderus. Maent yn chwarae rhan lawn ym mywyd a gwaith yr ysgol, er enghraifft fel aelodau o'r cyngor ysgol. Yn ychwanegol, mae aelodau o'r llysgenhadon chwaraeon yn cyfrannu'n dda tuag at gynnal a chadw offer, yn trefnu gemau ysgol ac yn darparu sesiynau cynhesu cyn sesiynau addysg gorfforol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfathrebu'n effeithiol am bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. Cefnogir hyn gan grwpiau disgyblion fel y grŵp iechyd a lles sy'n cymryd cyfrifoldeb i greu rheolau yn yr ystafell ddosbarth ac ar y maes chwarae, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad disgyblion ar draws yr ysgol. Yn ystod amseroedd egwyl, mae llawer o ddisgyblion yn dewis ymgymryd â gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan gyfeillgarwch atgyfnerthol eu cyfoedion ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dod â byrbryd iach i'r ysgol fel rhan o fenter ysgol iach yr ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn deall bod angen gwneud dewisiadau iach, gan gynnwys bod yn gorfforol egnïol. Mae llawer o ddisgyblion yn dewis ymgymryd â gweithgareddau ar ôl yr ysgol, gan gynnwys y clwb dawnsio disgo, a chlybiau chwaraeon amrywiol eraill.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn siarad yn hyderus am eu dysgu. Maent yn gweithio'n dda wrth weithio gyda phartneriaid ac mewn grwpiau. Mae disgyblion ieuengaf yn barod i ymgymryd â thasgau ac yn siarad yn frwd amdanynt, er enghraifft wrth drafod y gwahanol ddeunyddiau a ddefnyddir i adeiladu cadair ar gyfer tedi'r dosbarth. Mae disgyblion hŷn yn siarad yn frwdfrydig ag ymwelwyr am eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn dda i gwestiynau. Maent yn ymateb yn briodol ac yn rhoi esboniadau clir am eu syniadau a'u meddwl. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwerthfawrogi'r adborth amserol gan athrawon a'u cyfoedion ac yn deall bod hyn yn eu helpu i ddysgu a gwella'u gwaith a nodi eu camau nesaf mewn dysgu.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn deall pwysigrwydd diogelwch digidol ac yn gwybod sut i gadw'n ddiogel ar-lein, er enghraifft trwy waith cynlluniedig gan y swyddog

cyswllt ysgolion lleol ar sut i aros yn ddiogel ar-lein. Maent yn deall i beidio â siarad â dieithriaid na mynd i unrhyw safleoedd digidol anghyfarwydd.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae gan staff berthnasoedd gweithio rhagorol â disgyblion. Mae hyn yn creu ethos cynnes a gofalgar ar draws yr ysgol, sy'n cefnogi dysgu'n dda. Mae athrawon a staff cymorth yn gweithio gyda'i gilydd yn llwyddiannus i ddarparu strategaethau effeithiol ar gyfer hyrwyddo ymddygiadau cadarnhaol. Mae hyn yn golygu bod bron pob un o'r disgyblion yn gwybod pa ymddygiadau sy'n dderbyniol ac yn gwneud eu gorau i wrando ar oedolion a gweithio'n ddiwyd.

Mae athrawon yn darparu gwersi sy'n cymell ac yn ennyn diddordeb disgyblion yn effeithiol. Pan mae'r addysgu yn fwyaf effeithiol, mae athrawon yn rhannu nodau'r wers yn rheolaidd i sicrhau bod disgyblion yn deall y tasgau y maent yn ymgymryd â nhw. Maent yn cysylltu eu gweithgareddau â dysgu blaenorol ac yn cyfeirio at fedrau a ddysgwyd yn y gorffennol yn effeithiol. Bron ym mhob dosbarth, mae athrawon yn defnyddio technegau holi medrus sy'n adeiladu'n effeithiol ar wybodaeth disgyblion ac yn ymestyn eu dealltwriaeth ymhellach.

Mae athrawon yn rhannu syniadau ac adnoddau ar y cyd. Maent yn cynllunio gweithgareddau'n fedrus i sicrhau lefel briodol o her ar gyfer bron pob un o'r disgyblion. Mae gan staff ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion, ac maent yn gweithio gyda'i gilydd yn bwrpasol i feithrin agweddau cadarnhaol mewn disgyblion.

Mae athrawon yn adnabod eu disgyblion yn dda. Maent yn arsylwi ac yn asesu cynnydd a datblygiad disgyblion yn rheolaidd ac yn defnyddio'r wybodaeth yn synhwyrol i gynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu. Yn yr enghreifftiau gorau, maent yn helpu disgyblion i ddeall eu cryfderau eu hunain a'u meysydd i'w datblygu. Mae adborth llafar athrawon yn ystod gweithgareddau yn helpu disgyblion i wybod pa mor dda y maent yn gwneud a sut i wella'u gwaith. Yn llyfrau disgyblion, mae athrawon yn rhoi adborth ar gywirdeb eu gwaith, ac ar ansawdd y cynnwys, o bryd i'w gilydd. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae athrawon yn tueddu i or-gyfarwyddo dysgu'r disgyblion, sy'n cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu'n annibynnol.

Mae'r ysgol yn datblygu dealltwriaeth gadarn o Gwricwlwm i Gymru ac mae staff yn gweithio'n ddiwyd i ddarparu amrywiaeth eang o brofiadau addysgol ar gyfer disgyblion. Megis dechrau datblygu y mae'r cynllunio ar gyfer datblygiad systematig medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn cael digonedd o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau sylfaenol yn ystod gweithgareddau dyddiol ac yn datblygu'r medrau hyn mewn tasgau trawsgwricwlaidd perthnasol.

Mae'r cwricwlwm yn eang a chytbwys ac yn ystyried anghenion a chyd-destun ei ddisgyblion. Mae staff yn cynnwys bro'r ysgol yn dda yn ei chwricwlwm ac yn defnyddio llawer o wahanol agweddau fel nodweddion daearyddol, amwynderau lleol, ac adeiladau enwog. Er enghraifft, mae staff yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu medrau llafar Cymraeg trwy ymweld â'r siop leol, cymharu ardaloedd sy'n naturiol ac yn artiffisial, ac ymweld â Neuadd Gregynog yn rheolaidd ar gyfer gwahanol weithgareddau. Yn ychwanegol, mae athrawon yn ymestyn cyfleoedd

dysgu'n effeithiol trwy ddefnyddio ymwelwyr â'r ysgol a chydweithio â gweithwyr proffesiynol eraill. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn datblygu eu medrau creadigol yn dda, gan weithio ochr yn ochr ag ymarferwyr addysgol medrus i ddylunio a chreu pypedau mecanaidd o anifeiliaid.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddylanwadu ar yr hyn y maent yn ei ddysgu. Er enghraifft, mae disgyblion ieuengaf yn gwneud awgrymiadau am y testun y maent yn dymuno dysgu amdano, tra bod disgyblion hŷn yn awgrymu meysydd y gallent ymchwilio iddynt fel rhan o'u testunau. Mae hyn yn sicrhau bod athrawon yn darparu ystod briodol o gyfleoedd dysgu diddorol sy'n ymestyn gwybodaeth disgyblion ac yn darparu cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion ddatblygu ystod o fedrau. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn creu cyflwyniadau manwl ac addysgiadol yn dilyn eu prosiectau ymchwil unigol ar dlotai.

Ar draws yr ysgol, mae'r amgylchedd dysgu'n groesawgar ac ysgogol. Fodd bynnag, nid yw'r ystafelloedd dosbarth ar gyfer disgyblion ieuengaf yn darparu digon o gyfle i ddisgyblion arbrofi a dysgu trwy chwarae. Mae cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso'u medrau trwy ddefnyddio tir helaeth yr ysgol ar gyfer dysgu yn yr awyr agored yn gyfyngedig.

Mae'r ysgol yn darparu ystod ysgogol o brofiadau dysgu ychwanegol trwy ddefnyddio clybiau allgyrsiol ac amrywiaeth o ymweliadau a chyfleoedd preswyl. Mae'r rhain yn cyfoethogi profiadau disgyblion, yn ehangu eu gwybodaeth, ac yn datblygu eu medrau corfforol a meithrin tîm yn dda, er enghraifft wrth baratoi disgyblion i berfformio yn Eisteddfod yr Urdd.

Ar draws y ffrydiau cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg, mae staff yn dangos ymdeimlad o falchder yn y Gymraeg. Yn yr arfer orau, lle mae staff yn meddu ar wybodaeth gadarn a hyder mewn defnyddio'r Gymraeg, defnyddir hyn yn effeithiol i gefnogi datblygiad medrau disgyblion yn y Gymraeg, yn enwedig eu medrau siarad.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn amgylchedd dysgu gofalgar a chynhwysol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad medrau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion. Mae arweinwyr yn blaenoriaethu a meithrin ymagwedd ar y cyd at les, gan sicrhau awyrgylch o barch rhwng oedolion a disgyblion. O ganlyniad i hyn, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn derbyn gofal o fewn lleoliad ymddiriedus. Mae pob un o'r staff yn addasu yn unol ag anghenion y disgyblion ac yn ymateb yn effeithiol i unrhyw heriau emosiynol, gan ddefnyddio ystod o strategaethau ac ardaloedd tawel i gefnogi disgyblion. O ganlyniad, caiff yr ymyriadau ymatebol hyn effaith fuddiol ar les ac ymddygiad disgyblion.

Mae gan yr ysgol ddarpariaeth briodol i gynorthwyo disgyblion ag ADY. Ceir ymagwedd gynhwysol, sy'n cael ei theilwra'n effeithiol at anghenion disgyblion, ac fe gaiff effaith fuddiol ar gynnydd disgyblion tuag at eu targedau unigol. Mae'r cydlynydd ADY yn gweithio'n llwyddiannus gydag aelodau staff eraill i sicrhau bod anghenion disgyblion yn cael eu nodi'n gynnar, a chynlluniau priodol yn cael eu rhoi ar waith i'w diwallu. Mae defnyddio proffiliau un dudalen yn sicrhau bod staff yn meddu ar ddealltwriaeth drylwyr o anghenion unigolion a grwpiau, gan osod targedau clir sy'n cael eu monitro a'u rhannu'n rheolaidd â rhieni.

Mae'r ysgol yn datblygu ymwybyddiaeth a medrau staff yn llwyddiannus trwy hyfforddiant i gefnogi darpariaeth deilwredig ar gyfer ei dysgwyr. Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag ystod o asiantaethau allanol i sicrhau bod cymorth ychwanegol arbenigol yn cael ei sicrhau ar gyfer disgyblion, er enghraifft gan seicolegwyr addysg, tîm o amgylch y teulu a chanolfan leol argyfwng teulu. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus. Mae gwasanaethau ystyriol a myfyriol yn datblygu themâu sy'n galluogi datblygiad moesol a moesegol disgyblion ar sail gwerthoedd ar y cyd fel parch a gweithio fel tîm, ac fe gaiff disgyblion eu cynnwys mewn llunio'r rhain. Mae gwasanaethau hefyd yn cynorthwyo disgyblion i wneud dewisiadau da ac amlygu materion perthnasol eraill yn ystod Wythnos Gwrthfwlio a Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel, yn ogystal â chyfleoedd iddynt fyfyrio ar eu hysbrydolrwydd. Cefnogir hyn trwy weithgareddau pwrpasol yn yr ystafell ddosbarth sy'n cynorthwyo disgyblion i fyfyrio ar faterion cyfoes a gwahanol ddiwylliannau a chrefyddau. Mae athrawon yn annog pob un o'r disgyblion i gyfrannu'n ddoeth at y gymuned fel eu bod yn datblygu i fod yn ddinasyddion cyfrifol sy'n fodlon helpu pobl eraill.

Mae gan yr ysgol drefniadau da i sicrhau bod disgyblion yn dysgu am bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach a chymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol. Mae staff yn darparu ystod o gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymgymryd â chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Mae clybiau chwaraeon allgyrsiol yn gwella datblygiad corfforol disgyblion yn dda, tra bod cyfleoedd cystadleuol ychwanegol yn cael eu darparu i wella mwynhad ac ymgysylltiad disgyblion mewn ffordd egnïol o fyw.

Mae darpariaeth yr ysgol yn cefnogi amrywiaeth deg o ddisgyblion i gymryd rhan mewn penderfyniadau ysgol gyfan trwy ei grwpiau disgyblion. Mae'r rhain yn dechrau cael effaith ar berchnogaeth disgyblion dros benderfyniadau strategol sy'n effeithio arnyn nhw. Er enghraifft mae'r cyngor ysgol, trwy ymgynghori â'r corff llywodraethol a'r pennaeth, wedi dylunio marciau ar y maes chwarae ar gyfer yr iard sydd wedi cael ei tharmacio yn ddiweddar. Mae'r 'rhyfelwyr eco' ('eco warriors') yn gwneud yn siŵr bod amgylchedd yr ysgol yn rhydd rhag sbwriel ac wedi bod yn rhan o gynllun y sir i ailgylchu hen becynnau creision a ddefnyddir y tu allan i'r ysgol i greu blancedi ar gyfer pobl fregus. Mae'r profiadau hyn yn ymestyn profiad dysgu disgyblion ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o'u cymuned leol.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant diogelu cryf gyda threfniadau clir ar gyfer monitro presenoldeb a phrydlondeb disgyblion. Mae staff yn cadw cofnodion priodol o absenoldebau ac yn cysylltu â rhieni mewn modd amserol i drafod unrhyw bryderon am bresenoldeb eu plant. Defnyddir asiantaethau allanol yn effeithiol i gefnogi hyn, fel y bo'n briodol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder. Mae polisïau trylwyr ar waith ac mae pob un o'r staff yn gwybod am y gweithdrefnau cywir i'w dilyn. Mae cwricwlwm yr ysgol yn cefnogi diogelu disgyblion, fel galluogi disgyblion i wybod sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel yn bersonol ac ar-lein, ac yn gwybod at bwy y gallant droi os ydynt yn poeni.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae’r pennaeth yn arwain â brwdfrydedd a lefel uchel o ofal ac ystyriaeth ar gyfer disgyblion, staff, a rhieni. Mae hi wedi sefydlu diwylliant ystyrlon o ymddiriedaeth, gwaith tîm ac ymdrech i wella ar draws yr ysgol. Mae’n darparu arweinyddiaeth gefnogol ac effeithiol ac yn ymgysylltu’n dda iawn â’r holl bartneriaid i rannu’r weledigaeth i fod yn ‘ffrindiau gyda’n gilydd’ a ‘dysgu gyda’n gilydd’. Mae arweinwyr yn hwyluso ffocws parhaus ar feithrin a chynnal perthnasoedd cadarnhaol, ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o anghenion y disgyblion a’r gymuned leol.

Mae arweinwyr yn pennu rolau a chyfrifoldebau ar draws yr ysgol yn briodol. Mae’r pennaeth yn arwain trwy esiampl ac mae ganddi ddisgwyliadau uchel iddi hi ei hun a’r staff i ddarparu profiadau cadarnhaol a chefnogol ar gyfer disgyblion yn yr ysgol. Mae cynllun gwella’r ysgol yn amlinellu cyfeiriad strategol gwaith gwella’r ysgol yn glir. Mae graddfeydd amser a dangosyddion llwyddiant priodol ar waith i werthuso blaenoriaethau’r ysgol, ac mae staff a llywodraethwyr yn rhan annatod o’r broses hon. O ganlyniad, mae arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gref o’r cryfderau allweddol a’r meysydd i’w datblygu. Fodd bynnag, ni chaiff yr holl rolau a chyfrifoldebau’r ysgol gyfan eu dosbarthu’n ddigon cadarn ar draws yr uwch dîm arweinyddiaeth. O ganlyniad, nid yw uwch arweinwyr bob amser yn monitro’r prosesau hunanwella yn ddigon craff i nodi meysydd pwysig i’w datblygu, er enghraifft datblygu medrau dysgu’n annibynnol disgyblion. At ei gilydd, mae blaenoriaethau gwella’r ysgol yn cysylltu’n dda â’r negeseuon allweddol o’r broses hunanwella ac yn cynnwys y cyd-destun lleol a chenedlaethol.

Mae’r corff llywodraethol yn wybodus ac wedi ymrwymo i gefnogi’r ysgol. Mae aelodau’r corff llywodraethol yn meddu ar ystod werthfawr o arbenigedd ac yn cyfrannu’n dda at fywyd yr ysgol a’i lle yn y gymuned leol. Maent yn deall blaenoriaethau gwella’r ysgol a’r rhesymau sy’n sail iddynt. Maent yn cynorthwyo arweinwyr i weithredu a monitro gwaith gwella yn briodol, er enghraifft trwy gymryd rhan mewn teithiau dysgu a gwrando ar ddysgwyr yn rhinwedd eu swydd fel llywodraethwyr sydd â chyfrifoldeb am wahanol feysydd dysgu.

Mae llywodraethwyr yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach. Mae arweinwyr yr ysgol yn rheoli cyllid yn ystyriol ac yn dyrannu cyllid i gefnogi gwelliant yn llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys gwneud defnydd priodol o adnoddau a grantiau i gefnogi grwpiau o ddisgyblion, fel y rhai sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae’r ysgol yn defnyddio’i chyllid o’r grant datblygu disgyblion yn effeithiol i sicrhau cymorth gwerthfawr ar gyfer disgyblion o aelwydydd incwm isel. Mae’r ysgol yn sicrhau bod gweithgareddau allgyrsiol yn amrywiol a hygyrch a bod yr holl ddisgyblion yn gallu cymryd rhan yn yr holl brofiadau dysgu, er enghraifft tripiau ac ymweliadau.

Mae arweinwyr yn cysylltu dysgu proffesiynol yn effeithiol â blaenoriaethau gwella. Maent yn ymgysylltu â’r holl aelodau staff mewn hyfforddiant pwrpasol i ddatblygu eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth broffesiynol o ddulliau addysgu. Er enghraifft, mae hyfforddiant staff ar strategaethau ymddygiad wedi cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad disgyblion, a’u hagweddau at ddysgu ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr a staff yn gweithio’n effeithiol gydag ysgolion lleol i ddatblygu ymagweddau at addysgu a dysgu sy’n darparu parhad i ddisgyblion, wrth iddynt

symud i addysg uwchradd. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan mewn prosiectau digidol i ddatblygu medrau codio ac animeiddio disgyblion yn raddol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod staff yn gallu manteisio ar ystod eang o gyfleoedd dysgu proffesiynol. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn ymchwil weithredu gyda phrifysgol i ddiwallu anghenion grwpiau o ddisgyblion yn eu dosbarthiadau yn well.

Mae perthynas yr ysgol â rhieni yn gryfder ac mae'r cydweithio a'r cyfathrebu parhaus yn hyrwyddo'r ysgol yn ei chymuned yn eithriadol o effeithiol. Mae arweinwyr yn gweithio'n ystyriol i ddatblygu perthnasoedd gweithio cadarnhaol â rhieni ac yn cyfathrebu â nhw'n dda i'w hysbysu'n gyson am ddatblygiadau presennol fel trefniadau dalgylch a gweithdai ar y cwricwlwm.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  25/03/2024